Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# Cyllid refeniw digidol ar gyfer sefydliadau addysg bellach ac uwch yn 2026/27

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 23 Mehefin 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/26 |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch<br>Benaethiaid sefydliadau addysg bellach |
| **Ymateb erbyn:** | 11 Tachwedd 2026 |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Rebecca Johnson \| dysgudigidol@medr.cymru |


**Crynodeb:**

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r dyraniadau cyllid refeniw digidol ar gyfer sefydliadau addysg bellach ac uwch, yn rhoi canllawiau ar ddefnyddio'r cyllid ac yn nodi'r gofynion o ran adrodd a thystiolaeth.

Dyrannwyd £32,500 i bob sefydliad a restrir yn y cyhoeddiad hwn.

Cerrig milltir allweddol ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2026/27:


| Amseru | Carreg filltir neu weithredu |
|---|---|
| 11 Tachwedd 2026 | Pob sefydliad i roi amlinelliad cryno o'r defnydd a fwriedir o'r cyllid (**Atodiad A**) |
| Tua 20 Ionawr 2027 | Ar ôl derbyn Atodiad A, bydd taliad interim yn cael ei brosesu ym mis Ionawr |
| 15 Gorffennaf 2027 | Bydd yn ofynnol adrodd ar wariant diwedd blwyddyn (**Atodiad B** i'w ychwanegu ar ddechrau 2027) |
| Tua 20 Awst 2027 | Ar ôl derbyn Atodiad B, bydd y taliad terfynol yn cael ei brosesu ym mis Awst |


Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cyflwyniad

1. Mae Medr yn paratoi am ddiweddariad canol tymor o'r Fframwaith strategol Digidol 2030 ar gyfer dysgu digidol, ac rydym yn datblygu ein sylfaen dystiolaeth ar anghenion a blaenoriaethau dysgu digidol yn sail ar gyfer ein hymdriniaeth â dysgu digidol yn y sector trydyddol yn y dyfodol. Rydym yn gweithio'n agos gyda Jisc i gael dealltwriaeth well o'r sefyllfa, yr anghenion a'r blaenoriaethau cyfredol o ran dysgu digidol yn y sectorau addysg bellach ac uwch, ac wrth ddarparu prentisiaethau.

### Addysg bellach:

2. Mae Jisc eisoes wedi ymgysylltu â sefydliadau addysg bellach, Colegau Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i gynhyrchu canfyddiadau i Medr ar anghenion a blaenoriaethau cyfredol mewn addysg bellach. Rydym wedi dechrau ymgorffori canfyddiadau o'r darn hwn o waith, yn enwedig o amgylch y thema seilwaith digidol, yn ein dull o ddarparu cyllid cyfalaf digidol i sefydliadau addysg bellach (Medr/2026/18).

3. Mae'r meini prawf ar gyfer gwariant refeniw a nodir yn y cyhoeddiad hwn hefyd yn adlewyrchu'r themâu canlynol a godwyd gan sefydliadau addysg bellach:
    - Deallusrwydd Artiffisial
    - Gwella aeddfedrwydd data
    - Annog dulliau cydweithredol

### Addysg uwch:

4. Mae ymgysylltu pellach â sefydliadau addysg uwch, Prifysgolion Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill ynghylch anghenion a blaenoriaethau cyfredol ym maes dysgu digidol mewn addysg uwch wedi'i drefnu ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27.

5. Yn y cyfamser, rydym wedi parhau i ymgorffori themâu allweddol o'r sector addysg uwch a adlewyrchwyd mewn meini prawf cyllido refeniw blaenorol (Medr/2025/15):
    - Deallusrwydd Artiffisial
    - Trawsnewid Digidol a datblygu ymagweddau strategol at ddysgu digidol
    - Defnydd a rheolaeth effeithiol ar ddata

### Wrth edrych ymlaen:

6. Ar gyfer y blynyddoedd i ddod, bydd canfyddiadau a themâu o’r dystiolaeth a gesglir gennym yn cael eu hystyried gan Medr, ynghyd ag adborth o'r sector, yn sail ar gyfer ein penderfyniadau ynghylch dyraniadau cyllid digidol yn y dyfodol. Rydym yn ymwybodol y gallai rhai prosiectau a ariannwyd o dan Gronfa Datblygu Strategol Ôl-16 Medr yn 2025/26 (Medr/2026/03) hefyd gynhyrchu canfyddiadau ac allbynnau perthnasol.

## Dyraniadau

7. Dyrannwyd £32,500 o gyllid refeniw digidol ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 i bob un o'r sefydliadau addysg bellach a restrir isod:
    - Addysg Oedolion Cymru
    - Coleg Penybont

- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Cambria
- Coleg Gwent
- Coleg Sir Gâr
- Coleg y Cymoedd
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Grŵp Llandrillo Menai
- Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot
- Coleg Sir Benfro
- Coleg Catholig Dewi Sant
- Coleg Merthyr Tudful.

8. Dyrannwyd £32,500 o gyllid refeniw digidol ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 i bob un o'r sefydliadau addysg uwch a restrir isod:
   - Prifysgol Aberystwyth
   - Prifysgol Bangor
   - Prifysgol Caerdydd
   - Prifysgol Metropolitan Caerdydd
   - Prifysgol Abertawe
   - Prifysgol De Cymru
   - Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
   - Prifysgol Wrecsam
   - Y Brifysgol Agored yng Nghymru (er budd myfyrwyr o Gymru).

**Canllawiau ar ddefnyddio cyllid refeniw**

9. Darperir canllawiau ar wariant cymwys ac anghymwys yn yr adran hon. Rydym wedi anelu i gynnig cymaint o hyblygrwydd ag sy'n bosibl fel y gall sefydliadau fodloni anghenion a blaenoriaethau lleol. Os ydych yn ansicr a yw'r defnydd a fwriedir o gyllid yn gymwys, cysylltwch â dysgudigidol@medr.cymru am gyngor.

10. Mae'r cyllid a ddyrennir gan Medr yn ddarostyngedig i'r amodau cyffredinol ar gyfer talu cyllid a nodir yn Telerau ac Amodau Grant 2026/2027 gan Medr.

11. Dyrennir y cyllid hwn fel cyfraniad tuag at gostau mewnol (e.e. i neilltuo amser a chapasiti penodol gan unigolion allweddol) ac/neu i ddod ag arbenigwyr a chapasiti allanol i mewn i gefnogi'r dibenion canlynol.

12. **Gall** gwariant refeniw cymwys **gynnwys**:

| Categori | | Enghreifftiau o weithgareddau cymwys |
|---|---|---|
| **DR1** | **Deallusrwydd Artiffisial (AI)** | Gallai gweithgareddau gynnwys:<br>• arloesi, archwilio a threialu technolegau ac offer AI i'w defnyddio mewn gweithgareddau dysgu ac addysgu<br>• integreiddio technolegau, offer a/neu ddulliau deallusrwydd artiffisial yn dilyn treialon blaenorol |

| | | |
|---|---|---|
| | | (o fewn eich sefydliad, neu wrth fanteisio ar brofiadau darparwyr addysg drydyddol eraill)<br>• hyfforddiant ymarferol ac uwchsgilio ar gyfer unigolion allweddol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgarwch treialu neu â mabwysiadu technolegau ac offer newydd (gweler paragraff 13 mewn perthynas â Chyllid Dysgu Proffesiynol ar gyfer sefydliadau AB)<br>• amser a chapasiti gan unigolion allweddol i gymryd rhan mewn gweithgareddau cydweithredol ac/neu ymchwil |
| **DR2** | **Trawsnewid Digidol ac ymwreiddio ymagweddau strategol at ddysgu digidol** | Gallai gweithgareddau gynnwys:<br>• adolygu a diweddaru cynlluniau gweithredu sefydliadol ar gyfer dysgu digidol a/neu drawsnewid digidol<br>• archwilio sut y gallai mabwysiadu a/neu integreiddio technolegau ac offer digidol wella profiadau dysgu a/neu gyflogadwyedd dysgwyr<br>• mynd i'r afael ag anghenion dysgu digidol penodol a nodir drwy adborth dysgwyr<br>• rhannu dysgu a phrofiadau o fewn eich sefydliad eich hun, er mwyn cynyddu cysondeb ymagweddau a gwella cydlyniant profiadau dysgwyr oddi mewn i adrannau ac/neu ar draws gwahanol adrannau |
| **DR3** | **Annog ymagweddau cydweithredol at ddysgu digidol** | Gallai gweithgareddau gynnwys:<br>• hwyluso ymgysylltiad â'ch dysgwyr a'ch staff fel rhan o ddyluniad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr a phrosesau penderfynu sefydliadol sy'n ymwneud â dysgu digidol<br>• rhannu dysgu a phrofiadau yn y sector trydyddol ehangach (h.y. y tu allan i'ch sefydliad)<br>• cymryd rhan mewn gweithgareddau cydweithredol â phartneriaid allanol (e.e. darparwyr dysgu eraill, cyflogwyr, partneriaid yn y gymuned) |
| **DR4** | **Gwella aeddfedrwydd data, defnydd effeithiol o ddata, a rheolaeth effeithiol ar ddata** | Gallai gweithgareddau gynnwys:<br>• gwella defnydd a rheolaeth fewnol ar ddata sy'n gysylltiedig â phrofiad dysgwyr a dysgu ac addysgu<br>• datblygu neu adolygu defnydd eich sefydliad o ddadansoddiadau dysgu<br>• gwella dealltwriaeth staff o ddata dysgwyr, arfer da wrth reoli data, a/neu sgiliau wrth ddefnyddio data yn effeithiol ac yn ddiogel |
| **DR5** | **Gwerthuso, monitro ac adrodd** | Gallai gweithgareddau gynnwys:<br>• casglu, mesur a dadansoddi data meintiol ac adborth ansoddol gan ddysgwyr a staff i ddangos effaith gweithgareddau dysgu digidol a gwerthuso treialon<br>• paratoi gwybodaeth i'w lledaenu a'i rhannu yn ehangach |

13. **Ni cheir** defnyddio cyllid cyfalaf ar gyfer y canlynol:
   - I brynu dyfeisiau digidol neu offer digidol
   - Costau deunyddiau a nwyddau hyrwyddo; a/neu wobrau i unigolion am gymryd rhan mewn gweithgareddau neu am roi adborth
   - Costau teithio a chynhaliaeth staff
   - Costau y tu allan i'r cyfnod cyllido hwn (h.y. ar ôl 31 Gorffennaf 2027)
     *Ni ddylai eich sefydliad ddisgwyl y bydd Medr yn darparu cyllid pellach yn y blynyddoedd nesaf, ac ni ddylai unrhyw gostau â gefnogir yn ystod y cyfnod hwn greu dibyniaeth ar gyllid yn y dyfodol (er enghraifft, ar gyfer cytundebau trwydded parhaus).*
     *Eich sefydliad sy'n gyfrifol am sicrhau y bydd unrhyw gostau parhaus neu gylchol yn gynaliadwy yn y dyfodol.*
   - Gall sefydliadau addysg bellach hefyd dderbyn Cyllid Dysgu Proffesiynol (CDP) gan Medr, sef ein prif sianel ar gyfer cefnogi gweithgareddau dysgu proffesiynol yn y sector. Gan fod CDP eisoes ar gael, ni ddylid defnyddio'r cyllid refeniw digidol hwn ar gyfer hyfforddiant cyffredinol a dysgu proffesiynol i staff AB (h.y. costau i aelodau unigol o staff fynychu hyfforddiant neu ennill ardystiadau).

**Derbyn y cyllid**

14. Mae'n ofynnol i bob sefydliad lenwi a dychwelyd y ffurflen yn Atodiad A i:
   - Gadarnhau'n ffurfiol fod eich sefydliad yn derbyn y cyllid hwn
   - Enwebu unigolyn priodol yn eich sefydliad fel y prif gyswllt mewn perthynas â'r cyllid hwn
   - Rhoi amlinelliad byr o'ch bwriadau ar gyfer defnyddio'r cyllid hwn.

15. Dylid dychwelyd ffurflenni wedi'u llenwi i dysgudigidol@medr.cymru erbyn 11 Tachwedd 2026. Mae angen dychwelyd y ffurflen hon cyn prosesu'r taliad interim.

16. Rhowch wybod i Medr cyn gynted â phosibl os ydych yn rhagweld na fyddwch yn gallu gwario dyraniad eich sefydliad yn llawn.

**Monitro a thalu cyllid**

17. Yn amodol ar ddychwelyd **Atodiad A**, bydd taliad interim o £16,500 yn cael ei amserlennu yn ystod mis Ionawr 2027.

18. Bydd yn ofynnol ichi ddarparu gwybodaeth am wariant erbyn 15 Gorffennaf 2027 er mwyn rhyddhau'r taliad terfynol. Ni ddylech ond hawlio yn erbyn gwariant gwirioneddol sydd eisoes wedi'i ysgwyddo, ac unrhyw gostau pellach sydd wedi'u hymrwymo ac a ysgwyddir erbyn 31 Gorffennaf 2027. Ni fydd Medr ond yn talu am wariant gwirioneddol a ysgwyddir hyd at uchafswm o £32,500. Os nad yw eich sefydliad wedi gwario ei ddyraniad yn llawn, bydd y taliad terfynol yn cael ei leihau yn unol â hynny fel bod y cyfanswm a delir yn cyd-fynd â chyfanswm eich gwariant.

19. Cyn gynted ag y bo'r symiau interim wedi'u talu, bydd y ffurflen sydd i'w defnyddio i gyflwyno hawliad terfynol eich sefydliad a darparu gwybodaeth am wariant diwedd blwyddyn yn cael ei hychwanegu ar ffurf **Atodiad B.** Bydd arweinwyr cyllido a enwebwyd yn cael gwybod pan fydd y ffurflen hon ar gael.

## Rhannu gwybodaeth

20. Yn adroddiad diwedd blwyddyn eich sefydliad, byddwn yn gofyn ichi ddarparu crynodeb am stori prosiect posibl, astudiaeth achos, neu enghraifft o weithgaredd a gyllidwyd y gellid ei rannu'n ehangach (e.e. drwy bost blog, podlediad neu gyfweliadau, cyflwyniad ar gyfer cyfarfod rhwydwaith, digwyddiad neu gynhadledd). Byddwn yn cysylltu â Jisc i nodi detholiad o enghreifftiau a fydd yn cael eu datblygu ac yn gofyn i Jisc gysylltu â sefydliadau perthnasol i drefnu cyfleoedd i rannu'n ehangach.

## Rhagor o wybodaeth

21. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i sylw Rebecca Johnson (dysgudigidol@medr.cymru).

**Medr/2026/26: Atodiad A**
## Cyllid refeniw digidol ar gyfer sefydliadau addysg bellach ac uwch yn 2026/27

Rhaid dychwelyd ffurflenni wedi'u llenwi i dysgudigidol@medr.cymru erbyn 11 Tachwedd 2026.

### Adran 1: Derbyn cyllid

| **Manylion derbynnydd y cyllid:** | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | |

| **Prif gyswllt enwebedig eich sefydliad ar gyfer y cyllid hwn:** | |
|---|---|
| **Enw:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | |

Drwy lenwi a dychwelyd y ffurflen hon, rydych yn cadarnhau bod eich sefydliad yn derbyn y £32,500 o gyllid refeniw digidol a gynigir gan Medr.

### Adran 2: Defnydd a fwriedir o'r cyllid

Gan gyfeirio at ein canllawiau ar wariant cymwys ac anghymwys, esboniwch yn gryno sut rydych yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwn. Gwneir taliad interim yn ystod mis Ionawr 2027.

Ar y cam hwn, gallwch nodi swm amcangyfrifedig neu ganran amcangyfrifedig o gyllid yn erbyn pob categori perthnasol. Gofynnir am fanylion gwariant fesul eitem ar ddiwedd y cyfnod grant, fel rhan o hawliad terfynol eich sefydliad.

Os na ragwelir unrhyw wariant yn erbyn categori, dylech nodi 'amh' arno.

| **2.1 Cyllid refeniw** | | | |
|---|---|---|---|
| **Categori gwariant:** | | **Y math o wariant a fwriedir:** | **Swm neu ganran amcangyfrifedig o gyllid:** |
| **DR1** | **Deallusrwydd Artiffisial (AI)** | | |
| **DR2** | **Trawsnewid Digidol ac ymwreiddio ymagweddau strategol at ddysgu digidol** | | |
| **DR3** | **Annog ymagweddau cydweithredol at ddysgu digidol** | | |
| **DR4** | **Gwella aeddfedrwydd data, defnydd effeithiol o ddata, a rheolaeth effeithiol ar ddata** | | |
| **DR5** | **Gwerthuso, monitro ac adrodd** | | |

Os na allwch ddefnyddio'ch dyraniad yn llawn am unrhyw reswm, rhowch wybod i Medr cyn gynted â phosibl (drwy: dysgudigidol@medr.cymru).

**Medr/2026/26: Atodiad B**

## Cyllid refeniw digidol ar gyfer sefydliadau addysg bellach ac uwch yn 2026/27

Bydd yr atodiad hwn yn cael ei ychwanegu ar ôl prosesu'r taliadau interim. Bydd arweinwyr cyllido enwebedig yn cael gwybod pan fydd y templed ar gael.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**